# Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi, Dydd Sadwrn 15 Awst 2026

## Y NEUADD FWYD **Ffurflen Gais Arddangosydd**

Yn addas ar gyfer arddangoswyr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu ei yfed ar y safle e.e. prydau parod poeth, hufen iâ, coffi a diodydd alcohol.Bydd wrth ymyl ardal eistedd dan ganfas er mwyn i'r ymwelwyr ymlacio a mwynhau'r bwyd a'r diod a brynwyd. **10 Gorffenaf 2026** yw'r **dyddiad cau** ar gyfer derbyn eich ffurflen gais (ynghyd â'ch dogfennau). Dim ond pan dderbynnir yr holl ddogfennau a'r taliad y gellir archebu lle. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych yn cydsynio â'r Telerau a'r Amodau ar gyfer Arddangoswyr.

**Post neu e-bost i:**

**MENTER ABERTEIFI**
**Neuadd y Dref, Aberteifi**
**Ceredigion, SA43 1JL**
**01239 615554**
**festival@menter-aberteifi.com**

**MANYLION YR ARDDANGOSYDD** Enw Cyswllt: ______________________________

Enw'r Cwmni/ Enw Masnachu: ______________________________

Cyfeiriad Post: ______________________________

______________________________ Cod Post: ______________

Cyfeiriad E-bost: ______________________ Gwefan: ______________________

Teleffon : ______________________ Ffôn Symudol: ______________________

**GWYBODAETH YR ARDDANGOSYDD** Rhowch ddisgrifiad byr o'ch cynnyrch / eich gwasanaeth

[ ]

Ydych chi wedi ennill unrhyw **WOBRAU**? Rhowch fanylion

[ ]

A fyddwch yn coginio ar eich stondin? **Byddaf / Na fyddaf** Os '**Byddaf**', pa danwydd? [ ]

**CYNLLUN HYLENDID BWYD** (Cylchwch y sgôr) **1 2 3 4 5**

**Awdurdod Lleol y gofrestrir ag ef** ______________________ **Dyddiad yr arolygiad diwethaf** __________

**MANYLION ANGHENION TRYDAN**

Mae cyflenwad trydan yn cynnwys un soced domestig safonol 13 Amp 240 folt. Nodwch faint o socedi sydd eu hangen yn yr adran isod

☐ Nid oes angen trydan arnaf

☐ Byddaf yn dod â'm generadur fy hunan (DS: caniateir generaduron diesel distaw yn unig)

☐ Hoffwn i chi ddarparu cyflenwad trydan ar fy nghyfer: Dyma fydd ein hanghenion trydanol
(rhestrwch yr holl eitemau ar eich stondin, eu wattedd a chyfanswm yr wattedd sy'n ofynnol))

[ ]

## Y NEUADD FWYD — Is-gyfanswm

**STONDIN/GAZEBO** @ £130/£150 Sawl un sydd ei angen .......... ................

**MAINT Y STONDIN**
@ £55 y medr wyneb blaen Sawl medr.......... ...........................

**CYFLENWAD TRYDAN**
@ £35 y soced lan i 2kw Sawl un sydd ei angen ....... .........................
@ £55 y soced lan I 4kw " ....... ........................

**TÂL YCHWANEGOL ALCOHOL**
@ £26 Oes angen? OES / NAC OES ...........................

**CYFANSWM £** [ ]

**CYFARWYDDIADAU TALU**

Gwnewch **sieciau**'n daladwy i

**Menter Aberteifi Cyf**

*Neu* **BACS** i

CAF BANK
Menter Aberteifi Cyf
rhif cyfrif 00032544 cod didoli 40-52-40
*Rhowch gyfeirnod: R&F (enw'ch cwmni)*

**Dogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys** gyda'r ffurflen hon:

☐ Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynhyrchion

☐ Tystysgrifau prawf PAT ar gyfer yr holl offer perthnasol

☐ Tystysgrifau prawf nwy ar gyfer yr holl offer perthnasol

☐ Cytundeb Masnachwyr Alcohol (os yw'n berthnasol)

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a derbyn Telerau ac Amodau **Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi**

*Llofnodi*.............................................

*Dyddiad*.................

# Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi – Telerau ac Amodau

**Y NEUADD FWYD –** Ardal i werthu bwyd neu ddiod i'w bwyta ac yfed AR safle'r Ŵyl yn bennaf. Cysylltwch â ni os nad ydych chi'n siŵr.

**Y FARCHNAD FWYD -** Ardal i werthu bwyd neu ddiod i'w bwyta ac yfed ODDI AR safle'r Ŵyl yn bennaf. Cysylltwch â ni os nad ydych chi'n siŵr.

**STONDINAU** – 2.5 m lled x 1.8 m dyfnder yw mesuriadau'r stondinau (o leiaf) a bydd ganddynt ganopi a bwrdd sy'n mesur 1.8 m lled a 0.6m dyfnder o leiaf.

**LLAIN AR FESUR** – codir yn ôl y metrau sy'n rhedeg ar hyd y blaen. Cofiwch gynnwys yr arddangosfa gyfan, gan gynnwys byrddau, mynediad a stoc. Os oes cerbyd neu drelar ynghlwm, rhaid i'r mesuriad cyffredinol gynnwys barrau halio, drysau ac ati. Yr uchafswm dyfnder yw 3m.

**CANSLADAU** – Bydd arddangosydd sy'n canslo archeb neu'n methu bod yn bresennol am ba bynnag reswm, yn fforffedu'r holl ffioedd a dalwyd ac mae swyddfa'r ŵyl yn cadw'r hawl i ail-osod y cyfryw safleoedd. Ni roddir unrhyw ad-daliad oherwydd tywydd gwael. Ni roddir unrhyw ad-daliadau os na ellir cynnal yr ŵyl am unrhyw reswm y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr.

**PARCIO AR GYFER ARDDANGOSWYR** – Rhaid i bob cerbyd fod oddi ar y safle erbyn 9.30yb ac ni fydd modd dychwelyd i'r safle tan ar ôl 5.00yp. Bydd y marsialyddion yn rhoi cyfarwyddiadau i le parcio priodol. Gall yr arddangoswyr ddefnyddio'r gwasanaeth Parcio a Theithio sy'n gweithredu rhwng 8y.b. a 6.30y.p.

**GOSOD A DATGYSYLLTU ARDDANGOSION -** Hysbysir yr arddangoswyr mai rhwng 7.00yb - 9.30yb yw'r amser gosod. Gwnewch yn siŵr nad yw'ch stondin arddangos yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal a archebwyd gennych. Gellir datgysylltu arddangosion ar ôl 5.00yp. Dylai pob Arddangosydd aros ar y safle yn ystod yr oriau agor o 10yb-5yp.

**DIOGELWCH, TRWYDDEDU AC ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS AYYB** -
Bydd pob arddangosydd yn dod i mewn yn ôl eu menter eu hunain.
Dylai pob arddangosydd sicrhau eu bod wedi'u hyswirio'n ddigonol ar ddiwrnod yr ŵyl ar gyfer Atebolrwydd Cyhoeddus, Cynnyrch a Chyflogedigion a dylid anfon copi o'r ddogfen berthnasol gyda'u ffurflen gais.
Rhaid i bob arddangosydd sicrhau bod ganddynt y drwydded (trwyddedau) angenrheidiol i allu cynnal eu busnes yn gyfreithiol ar y diwrnod. Yn achos gwerthwyr alcohol, bydd gan yr ŵyl ei Thrwydded Safle ei hun gan yr awdurdod lleol. Felly, dim ond gordal alcohol sydd angen i chi ei dalu gyda'ch cais. Rhaid i bob deiliad stondin sy'n gwerthu alcohol arwyddo a dychwelyd ein Cytundeb Masnachwyr Alcohol. Rhaid i bob gwerthwr alcohol arddangos posteri Her 21/Challenge 21 a gallwn gyflenwi'r rhain. At hyn, mae'n well gennym, ac rydym yn argymell yn gryf fod stondinau sy'n gwerthu alcohol yn cael eu goruchwylio gan ddeiliad trwydded personol.
Efallai y bydd angen trwyddedau/hawlenni eraill arnoch. Eich cyfrifoldeb chi yw'r rhain.
Rhaid i chi sicrhau bod copïau o'r holl drwyddedau/hawlenni perthnasol ar gael i'r trefnwyr gyda'ch ffurflen gais.

**IECHYD A DIOGELWCH**
Mae cyfrifoldeb ar bob Arddangosydd i sicrhau eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwy eu hunain ac eraill. Ni all unrhyw Arddangosydd neu ei staff/asiantau neu aelod o'r cyhoedd ddal y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw anaf neu golled oherwydd esgeulustod neu arddangosfeydd anniogel. Disgwylir i bob arddangosydd fod wedi cynnal asesiad o'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Rhaid i arddangoswyr nad ydynt yn gwerthu bwyd anfon copi o hwn gyda'u ffurflen gais. Ni fydd y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i stoc neu gyfarpar, sut bynnag y digwydd hynny, yn ystod yr ŵyl.
**Offer Diogelwch Tân.** Rhaid i'r arddangoswyr ddarparu offer diogelwch tân sy'n briodol i'w gweithgareddau. Yn benodol, rhaid bod gan bob arddangosydd sy'n coginio ar y safle offer ymladd tân digonol gan gynnwys blancedi tân.

**IECHYD YR AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH**
Rhaid cofrestru pob arddangosydd bwyd a diod gyda **chynllun graddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd**. Bydd y trefnwyr yn archwilio'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais. Rhaid i'r holl bobl sy'n trafod bwyd fod wedi gwneud **hyfforddiant Hylendid Bwyd lefel 2** o leiaf.
Disgwylir i'r arddangoswyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o safbwynt Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd a Iechyd a Diogelwch. Gellir archwilio'r stondinau a chaiff y rhai hynny y tybir nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol eu cau.
Mae gwybodaeth bellach am reoliadau bwyd, iechyd yr amgylchedd a iechyd a diogelwch ar gael gan Gyngor Sir Ceredigion.
**CAEL GWARED AR WASTRAFF AC AILGYLCHU**
Disgwylir i arddangoswyr gadw'r ardal o'u hamgylch mor lân â phosibl. Bydd cyfleusterau gwaredu ac ailgylchu gwastraff ar gael ar y safle. Fodd bynnag, bydd yr arddangoswyr yn gyfrifol am gael gwared ar ddŵr brwnt, ac argymhellwn eich bod yn ei gludo i ffwrdd mewn cynhwysydd caeedig a'i wagio i system draenio dŵr brwnt addas. Lle bo'n briodol, dylid cymryd rhagofalon digonol i atal gollyngiadau olew/hylif trwy ddefnyddio blychau dan gerbydau. Argymhellwn fod pob cynhwysydd bwyd, pecynnau, platiau a chyllyll a ffyrc ac ati wedi'u cynhyrchu o ddefnyddiau a fydd yn pydru fel papur neu bren. Dylai fod modd ailgylchu cwpanau ac mae'n well gennym blastig y gellir ei ailgylchu na phlastig a fydd yn pydru. Argymhellwn yn gryf peidio â defnyddio pethau nad oes modd eu hailgylchu.
**DŴR**
NID oes prif gyflenwad dŵr ar y safle. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'r holl ddŵr y bydd arnoch ei angen ar y dydd gyda chi, gan gynnwys dŵr i lanhau.

**TRYDAN**
Mae'r Cyflenwad Trydan yn cynnwys un x soced domestig safonol 13 Amp 240 folt a dylid ei nodi ar eich ffurflen gais. Yr arddangosydd sy'n gyfrifol am unrhyw wifrau estyn os oes eu hangen (o uned y cyflenwad) ac nid yw'r rhain ar gael oddi wrth y trefnwyr.

**CYFARPAR**
Gall arddangoswyr ddod â'u generaduron eu hunain ar y safle, ar yr amod eu bod yn generaduron diesel distaw a bod yr arddangoswyr yn dod â chyfarpar addas ar gyfer ymladd tân.
Rhaid i'r holl offer trydanol fod wedi'u hardystio a dylai fod tystysgrif PAT cyfredol ar eu cyfer. Rhaid i'r dystysgrif hon fod ar gael i'w harchwilio gan ein trydanwr yn yr ŵyl. Sylwch na ellir defnyddio cyfarpar sydd heb gael prawf PAT ar unrhyw gyfrif. Rhaid bod tystysgrif nwy cyfredol, wedi ei gyhoeddi gan beiriannydd nwy cofrestredig, ar gael ar gyfer pob teclyn nwy. Anfonwch gopïau o'ch tystysgrif(au) PAT ac / neu nwy gyda'ch ffurflen gais.

NID YW CYFLWYNO CAIS YN SICRHAU LLE YN YR ŴYL. GALL HYN FOD AM NIFER O RESYMAU (E.E. GORMOD O STONDINAU TEBYG NEU'N AMHRIODOL AR GYFER YR ŴYL). SWYDDFA'R ŴYL FYDD Â'R PENDERFYNIAD TERFYNOL YM MHOB ACHOS. OS BYDD EICH CAIS YN AFLWYDDIANNUS BYDDWN YN RHOI AD-DALIAD. RHAID TALU YMLAEN LLAW AM BOB LLE. NI DDERBYNNIR UNRHYW DALIADAU NEU FYNEDIAD AR Y DIWRNOD.

Lle bo'n bosibl, bydd swyddfa'r ŵyl yn gwahanu cynhyrchion tebyg sydd ar werth, ond ceidw'r hawl i roi amrywiaeth a dewis i'r cyhoedd. Bydd swyddfa'r ŵyl yn ymdrechu'n rhesymol i fodloni ceisiadau am neilltuo safle penodol ond am resymau gweithredol ni ellir sicrhau hyn.